YSGOL GYMUNEDOL

Plascrug

COMMUNITY SCHOOL

Prospectws Ysgol

School Prospectus

YSGOL GYMUNEDOL Plascrug COMMUNITY SCHOOL

Rhodfa Plascrug,
Aberystwyth,
Ceredigion,
SY23 1HL
+44(0)1970 612286
prif@plascrug.ceredigion.sch.uk
www.plascrugprimary.co.uk
Twitter @plascrug

Annwyl Rhiant/Gwarcheidwad,

Rwyf yn hynod o falch eich bod wedi dewis Ysgol Plascrug ac wedi dod yn bartneriaid efo ni yn Addysg eich plentyn. Byddwch yn sylwi bod ein nodau ac amcanion yn ei wneud yn glir fod gennym ddyheadau uchel ar y cynnydd mae pob un plentyn yn eu wneud yn ystod ei amser yn yr ysgol. Cafodd y nodau ac amcanion ei ddatblygu gyda mewnbwn gan holl gymuned yr ysgol. Mae'r bartneriaeth rhwng plant, rhieni ac athrawon yn nodwedd cryf o gymuned Plascrug, ac un yr wyf yn edrych i ddatblygu yn reolaidd.

Hyderaf y bydd eich plentyn yn ymgartrefu'n gyflym ac yn mwynhau'r profiad o fod yn ddisgybl ym Mhlascrug.

Mae eu lles a'i cynnydd yn bwysig iawn i ni. Plîs peidiwch ag oedi cyn cysylltu efo unrhyw gwestiynau yr hoffech rannu.

Yr eiddoch yn gywir,

Carol Macy

Pennaeth / Headteacher

Nodau ac Amcanion

Nôd Ysgol Plascrug

Yn Ysgol Plascrug, byddwn yn sicrhau fod pob plentyn yn ffynnu yn ein hysgol, sy'n rhoi'r plant yng nghanol ein Cymuned. Rydym yn credu fod gan bob plentyn y potensial i wneud cynnydd arbennig mewn datblygu sgiliau gydol oes mewn amgylchedd dwyieithog sydd yn ddiogel, yn ofalgar ac yn ysbrydoledig.

Ein Amcanion

I alluogi plant i ddatblygu iechyd a lles cadarnhaol, gan gwmpasu dimensiynau corfforol, ffisiolegol, emosiynol, diwylliannol a chymdeithasol gan sicrhau eu bod yn cymryd rhan mewn bywyd orau y gallant, mewn byd sy'n newid yn barhaus.

I osod plant yn gadarn ar y ffordd i ddod yn ddysgwyr uchelgeisiol sy'n cyrraedd safonau uchel ac sy'n gallu defnyddio ei sgiliau Llythrennedd, Rhifedd a TGCH yn annibynnol, gan fwynhau her; yn wydn wrth wynebu unrhyw rwystrau.

I gyflwyno Cwricwlwm eang, cyffrous a diddorol, gan wneud llawn ddefnydd o'r awyr agored, sydd yn bwrpasol, yn bwerus ac yn gadarnhaol, wrth alluogi'r plant i wneud cynnydd ardderchog gyda gwên ar ei wynebau.

I osod creadigrwydd yng nghanol yr hyn a wnawn a dathlu'r siwrne creadigol mae pob plentyn yn eu wneud.

I roi cyfle i bob plentyn i ddatblygu ei sgiliau iaith Cymraeg ac i ddod yn ddwy ieithog, gan roi ymdeimlad o falchder yn hanes Cymru, a'i threftadaeth a'i diwylliant, sydd i bawb gwaeth a yw'r plentyn yn byw yma am gyfnod byr o amser, neu gydol oes.

I ddathlu ein Cymuned ysgol amlddiwylliannol ac amrywiol ac wrth wneud ennyn parch tuag at bob diwylliant a chrefydd.

I ddatblygu disgyblion fel dinasyddion byd-eang gwybodus sy'n adnabod fod ganddynt gyfraniad i wneud wrth ddatrys y problemau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol rydym yn ei wynebu yn lleol ac yn rhyngwladol.

I ddatblygu rhinweddau hunanddisgyblaeth a hunanreolaeth gan roi agwedd cyfrifol tuag at ysgol a'i rheolau, parch tuag at bobl eraill a'i eiddo, a pharodrwydd i rannu a chydweithio gydag eraill.

I barhau i adeiladu tîm cryf, ymroddedig a hapus sy'n mwynhau'r her parhaus o fod y gorau gallwn fod i bob plentyn yn Ysgol Plascrug.

Gwybodaeth Gyffredinol

Llywodraethwyr Ysgol

Cadeirydd – Mike Allman

Gwelir rhestr o Lywodraethwyr ac athrawon yr ysgol yn y brif dderbynfa ac ar wefan yr ysgol.

Safle'r Ysgol

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Plascrug yn ysgol a gynhelir gan yr AALl, wedi'i lleoli yn nhref arfordirol hyfryd Aberystwyth, Ceredigion.

Mae tua 400 o ddisgyblion yn yr ysgol o 3-11 mlwydd oed. Rhennir dosbarthiadau yn grwpiau Blwyddyn a cheir dosbarthiadau cyfochrog o allu cymysg yn rhedeg drwy'r ysgol. Mae maint y dosbarthiadau yn amrywio o 20 i 30 mewn nifer. Mae'r dosbarthiadau Meithrin yn gweithredu'n rhan-amser (bore / 'pnawn.) i blant 3 oed, ac yn llawn amser pan fyddant yn cyrraedd 4 oed. Bydd disgyblion yn mynd i'r dosbarthiadau Derbyn prif ffrwd yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 4 oed.

Derbyniadau

Y swyddfa dderbyniadau yng Nghyngor Sir Ceredigion sy'n bennaf gyfrifol am dderbyn disgyblion i'r ysgol. Bydd angen i chi wneud cais am le yn yr ysgol drwy ei gwefan.

Derbyniadau Meithrin - Gall plant fynychu'r Meithrin yn rhan-amser y tymor a ddilynir ei phen-blwydd yn 3 oed - bydd hyn yn bump bore neu pum prynhawn yr wythnos.

Wrth i'ch plentyn ddechrau'r ysgol gofynnir i chi gwblhau cofrestr a ffurflenni meddygol.

Mae'r pontio i Ysgol Plascrug ac ymlaen i'r Ysgolion Uwchradd lleol yn brosesau pwysig. Mae gennym systemau mewn lle i sicrhau fod gan eich plentyn gefnogaeth ym mhob cam o'r ffordd.

Gwisg Ysgol

Rydym yn disgwyl i bob plentyn wisgo gwisg ysgol. Mae'n helpu cyfrannu tuag at safonau ymddygiad da ac yn darparu ymdeimlad o berthyn i Gymuned yr Ysgol.

Gall gwisg ysgol ail-law gael ei brynu o swyddfa'r ysgol.

'Alison Jones Schoolwear' sydd yn cyflenwi holl eitemau o wisg ysgol -
alisonjoneseschoolwear.co.uk

Gwybodaeth Gyffredinol

Diogelwch

Mae diogelwch ein Safle Ysgol yn hollbwysig i ni ac yn cael ei adolygu'n gyson mewn cyfarfodydd Llywodraethwyr.

Mae holl ffiniau'r ysgol yn ddiogel ac mae camerâu CCTV yn monitro'r safle.

Mae holl staff yr ysgol wedi cael DBS wedi'i wirio.

Mae gan bob prif ddrws system mynediad 'Paxton' ac mae'n rhaid i bob ymwelydd arwyddo mewn yn y brif fynedfa a gwisgo bathodyn ID.

Cyfleoedd Cyfartal

Prif nôd yr ysgol yw ymdrechu i roi cyfleoedd cyfartal i bob unigolyn ar bob achlysur heb wahaniaethu ar sail rhyw, crefydd, lliw croen, iaith neu anabledd.

Disgyblion Sydd Ag Anableddau

Mae cynllun yr ysgol yn sicrhau mynediad rhwydd i holl ddisgyblion a rhieni sydd ag anableddau. Mae lifft yn yr ysgol i helpu unigolion gyrraedd y llawr cyntaf oddi ar y lawr waelod. Caiff trefniadau pwysig ei wneud rhwng yr ysgol ar cartref pan fod disgybl ag anabledd neu Anghenion Dysgu Ychwanegol yn dechrau yn yr ysgol.

Iechyd a Diogelwch

Mae diogelwch pob disgybl yn flaenoriaeth tra yn yr ysgol. Os oes plentyn yn cael damwain neu yn troi'n sâl, cysylltir â'r rhieni yn syth gyda'r gwaith papur angenrheidiol yn cael ei lenwi a'i storio efo'r cofnodion meddygol.
Mae'n rhaid i rieni lenwi'r ffurflen cywir er mwyn i blentyn dderbyn moddion yn yr ysgol. Gellir ddod ar draws i'r ffurflenni hyn yn y brif dderbynfa.
Mae'r ysgol yn adolygu ei protocol Iechyd a Diogelwch yn reolaidd. Mae'n rhaid i bob ymwelydd fynd mewn i'r ysgol drwy'r prif ddrws lle byddwn yn cael ei chroesawi gan aelod o staff. Yna maent yn derbyn bathodyn ymwelwyr fel bod y disgyblion yn medru'i adnabod.
Mae system larwm yn yr ysgol, a chynhelir ymarferion tân bob tymor.

Gwybodaeth Gyffredinol

Materion Amddiffyn plant

Mae gan holl aelodau staff ar draws yr ysgol o leiaf lefel 1 mewn Cymhwyster Amddiffyn Plant, gyda'r Brifathrawes a'r Dirprwy Brifathro gyda lefel 3 / 2 yn briodol. Os oes unrhyw bryderon ynglŷn ag unrhyw fater amddiffyn plant, bydd holl staff yr ysgol yn dilyn canllawiau'r Sir ac yn adrodd y mater i Gydlynydd Amddiffyn Plant yr ysgol.
Bydd y cydlynydd wedyn yn ymgynghori â chydweithwyr proffesiynol ac asiantaethau allanol megis Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
Dilynir canllawiau a phrotocolau'r Sir bob amser.
Y Brifathrawes Mrs Carol Macy yw Cydlynydd Amddiffyn Plant yr ysgol, ac yn ei absenoldeb Mr Bryn Shepherd, Dirprwy.
Y Llywodraethwr sy'n gyfrifol am Amddiffyn Plant yw Catrin Edwards.

Polisi Gwrth-fwlio

Ni oddefir unrhyw fath o fwlio yn yr ysgol a bydd yr ysgol yn gadarn ac yn unol â hynny wrth ymdrin ag unrhyw achosion o fwlio. Bydd yr ysgol yn gwneud pob ymdrech i sicrhau nad yw bwlio yn digwydd.
Dylai rhieni gysylltu ar ysgol yn syth os ydynt yn pryderu am unrhyw fater o fwlio.

Gwybodaeth Gyffredinol

Arferion Dyddiol

Byddwch yn cael gwybod amser dechrau a gorffen eich plentyn cyn iddynt ddechrau yn yr ysgol.

Disgwylir i bob plentyn gyrraedd yr ysgol ar amser.

Mae clwb brecwast ar gael o 8:05yb – 8:50yb am ddim i bob plentyn (rhaid i blant cyrraedd cyn 8.30yb).

Cysylltwch efo'r Dderbynfa am ragor o wybodaeth a ffurflenni cofrestru.

Amser Egwyl

Gofynnir i blant ddod a ffrwyth yn unig i fwyta yn ystod yr adeg hon. Mae stondin ffrwythau ar gael yn yr ysgol yn ystod egwyl bore ac mae coctel ffrwythau ar gael bob dydd Gwener.

Darparwch fotel dŵr i'ch plentyn er mwyn iddynt yfed ohono yn ystod y dydd.

Darparir llaeth hefyd i blant y Cyfnod Sylfaen yn ddyddiol.

Amser Cinio

1. Gall plant dderbyn cinio poeth o'r ysgol neu ddod a phecyn bwyd iachus.
2. Gwelir bwydlenni wythnosol ar wefan yr ysgol.
3. Coginiwyd prydiau iachus ar y safle a darperir ar gyfer yr holl ofynion dietegol.
4. Mae pob plentyn bellach yn gymwys i gael prydiau ysgol am ddim ers mis Medi 2023.
5. Pecyn bwyd - Gofynnir yn garedig i chi ddarparu pecyn bwyd iach. Rhaid cynnwys unrhyw lwyau ayb yn y bocs bwyd. Mae dŵr yfed ar gael yn yr ysgol. Ni chaniateir unrhyw ddiod 'fizzy' na photeli gwydr.

Ni chaniateir cynnyrch cnau na siocled mewn pecynnau bwyd.

Gwybodaeth Gyffredinol

Presenoldeb

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i rieni sicrhau fod plant yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd.

Mae presenoldeb da yn hanfodol i batrwm dysgu plentyn ddatblygu yn esmwyth ac i gynnydd gael ei gynnal. Os yw'ch plentyn yn absennol o'r ysgol am unrhyw reswm, cysylltwch gan ddefnyddio un o'r dulliau isod os gwelwch yn dda.

- Ffoniwch yr ysgol – 01970 612286
- E-bost - admin@plascrug.ceredigion.sch.uk
- Adroddwch ar wefan yr ysgol - Report Absence - Ysgol Gynradd Plascrug Primary School

Heblaw ein bod yn derbyn neges bydd yr absenoldeb yn cael ei recordio ar y gofrestr fel anawdurdodedig.

Mae'r ysgol yn gweithio'n galed iawn i gynnal lefelau presenoldeb uchel.

Gosodir y targed blynyddol gan y Corff Llywodraethol bob mis Hydref.

Gwyliau yn ystod amser ysgol – Dylai unrhyw gais i dynnu disgyblion o'r ysgol yn adeg y tymor ysgol ei wneud yn ysgrifenedig i'r Brifathrawes. Ystyrir pob cais yn ofalus a hysbysir rhieni am y canlyniad.
Caiff gwyliau yn ystod y tymor ysgol ei recordio fel absenoldeb anawdurdodedig.
Gellir rhoi hysbysiad cosb pan fo 10 neu fwy o absenoldebau anawdurdodedig wedi'u cofnodi.

Ymddygiad a Disgyblaeth

Mae gennym berthnasau ardderchog rhwng disgyblion a staff a phan na chedwir at y safonau ymddygiad disgwyliedig, mae gennym sawl cam i ddilyn. Ymdrinnir â'r rhan fwyaf o faterion gan drafod yr hyn a ddigwyddodd a sut gallwn ddysgu o'r hyn a ddigwyddodd.

Arddangosir côd ymddygiad sy'n adlewyrchu chwech rheol aur yr ysgol ym mhob dosbarth.

Os oes angen, byddwn hefyd yn dosbarthu cerdyn lliw sy'n arwain at golli chwarae. Melyn - 5 munud, Oren - 10 munud a Coch - 15 munud a chyswllt rhieni.

Rydym hefyd yn annog ac yn gwobrwyo ymddygiad da gyda gwobr sgwter yr wythnos, a ddewiswyd gan athrawon dosbarth yn y Gwasanaeth.

Gwybodaeth Gyffredinol

Gwaith Cartref

Gosodir gwaith cartref priodol yn rheolaidd i ddisgyblion Bl.1-6.
Gosodir tasgau gwaith cartref achlysurol i blant yn y Meithrin ar Derbyn.
Bydd eich cefnogaeth gyda gwaith cartref eich plentyn pan fo angen yn hybu cyflawniad eich plentyn yn yr ysgol.
Mae darllen rheolaidd a gemau mathemateg pen bob amser yn angenrheidiol.
Mae'r disgyblion yn defnyddio HWB (llwyfan dysgu) i gyflwyno gwaith cartref.

Dwyieithrwydd

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gategorïau ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg, o fis Medi 2022 bydd Ysgol Plascrug yn y categori trosiannol T.

Golygir hyn, byddwn yn anelu am gategori 2 (dwyieithog) yn y blynyddoedd i ddod. Os yn berthnasol, bydd unrhyw newidiadau a gynllunnir yn destun ymgynghoriad.

O Medi 2024, dysgir ein dosbarth Meithrin drwy'r cyfrwng Gymraeg. Ac o fis Medi 2025, bydd ein dosbarthiadau Meithrin a Derbyn yn cael ei addysg yn llawn drwy gyfrwng y Gymraeg.

EAL

Mae dros 25% o ddisgyblion yma ym Mhlascrug yn ddisgyblion Saesneg ail-iaith (EAL). Rydym yn dathlu'r amrywiaeth o ddiwylliannau ac amrywiaethau gydag ein Noswaith Ryngwladol a gynhelir yn flynyddol yn ystod tymor yr Hydref. Rydym hefyd yn cyflogi aelod o staff llawn amser i gefnogi disgyblion 'EAL' gyda'i dysgu.

Gweithgareddau Allgyrsiol

Rydym yn credu'n gryf fod y Cwricwlwm llawer yn ehangach na beth sydd yn digwydd o fewn y dosbarth. Cynhelir ystod o glybiau yn ystod y flwyddyn.

Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau chwaraeon megis pêl droed, rygbi, hoci, pêl fasged a phêl rwyd. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i gynrychioli'r ysgol mewn ystod o gystadlaethau am ddim. Mae ystod o glybiau eraill hefyd megis gwyddbwyll, coginio, TGCH a chelf i enwi rhai.

Mae'r Urdd yn darparu nifer o gyfleoedd i'r plant i gyfrannu i ddigwyddiadau diwylliannol a chwaraeon.

Mae disgyblion Bl.3-6 hefyd yn cael gwersi nofio wythnosol am dymor cyfan yn ystod y flwyddyn.

Gwybodaeth Gyffredinol

Gwersi Offerynnol

Mae disgyblion ym mlynyddoedd 2-6 yn cael y cyfle i ddysgu offeryn llinynnau, bâs, chwythbrennau neu taro. Darparwyd y rhain gan athrawon peripatetig a gyflogwyd gan Gyngor Sir Ceredigion. Mae'r ysgol yn prynu'r gwasanaeth cerdd yma, ac mae cyfran fach o'r gost gyffredinol i gyllideb yr ysgol yn cael ei throsglwyddo i rieni'r plant sy'n derbyn gwersi. Serch hynny, cynigir gwersi i ddisgyblion sy'n derbyn prydiau ysgol am ddim (PYD) am ddim drwy gydol y flwyddyn.

Cyfranogiad Rhieni

Mae gan yr ysgol CRhA llewyrchus sy'n cynnwys rhieni sydd hefyd yn gynrychiolwyr dosbarth. Maent yn gallu helpu ateb cwestiynau ar arferion dosbarth ayb. Mae croeso i bob rhiant fynychu cyfarfodydd CRhA. Mae'r gweithgareddau a drefnwyd yn help mawr wrth godi arian i wella'r cyfleoedd addysgiadol yn yr ysgol.

Defnyddir 'Parentmail' i gyfathrebu efo rhieni. Byddwch yn derbyn gwahoddiad i ymuno ac mae cylchlythyr wythnosol yn cael ei anfon bob wythnos.

Class	Class Representative for PTA 2024-25
Nursery/Meithrin	Olu Nwachukwu
Derbyn/Reception RhR	Melissa Chapot
Derbyn/ Reception CB	Joanna Jordan
Blwyddyn 1/Yr. 1 KS	
Blwyddyn 1/Yr. 1 AR/NT	Hazel Hopkins
Blwyddyn 2/Yr. 2 ARB	Laura Heley
Blwyddyn 2/Yr. 2 TE	Hannah Lee/Catherine Moyle
Blwyddyn 3/Yr. 3 HT	Jennie Thomas
Blwyddyn 3/Yr. 3 KH	Sam Lonsdale
Blwyddyn 4/Yr.4 OW	
Blwyddyn 4/Yr.4 NE	
Blwyddyn 5/Yr.5 AL	
Blwyddyn 5/Yr.5 HW/FH	Charlotte Bryan/Jozee Biddulph
Blwyddyn 6/Yr.6 AJ	Emma Davies/Laura Heley/Sam Lonsdale
Blwyddyn 6/Yr.6 BH	Jozee Biddulph

Teithio'n Iach

Mae Cyngor Eco'r ysgol wedi gweithio'n ddiflino dros y flwyddyn diwethaf i gyflawni'r wobr aur yng nghynllun teithio'n iach Sustrans. Fel ysgol, rydym yn annog rhieni i gerdded, seiclo neu rannu ceir wrth ddod a'i phlant i'r ysgol er mwyn lleihau'r traffig tu allan yr ysgol ac i gefnogi'r amgylchedd.

Gwybodaeth Gyffredinol

Teithiau Preswyl / Tripiau

Mae disgyblion blynyddoedd 4 a 5 yn cael y cyfle i fynd ar daith preswyl yn ystod Tymor y Gwanwyn. Mae disgyblion blwyddyn 6 yn mynd ar daith preswyl dwy noson yn nhymor yr Haf. Yn ogystal â hyn, mae pob disgybl drwy gydol yr ysgol yn cael amryw gyfleoedd i wella ei phrofiadau dysgu yn ystod y flwyddyn.

Cwricwlwm

Wrth wraidd y Cwricwlwm newydd mae'r Pedwar Diben sydd yn sylfaen i bob peth bydd y plant yn dysgu yn ei amser efo ni. Byddwn yn derbyn cefnogaeth i ddod yn:

- **ddysgwyr uchelgeisiol, galluog** sy'n barod i ddysgu drwy gydol ei oes
- **gyfranwyr mentrus, creadigol** sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- **ddinasyddion egwyddorol, gwybodus** sy'n barod i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd
- **unigolion iach, hyderus** sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Mae ein disgyblion yn gyfarwydd ar Pedwar Diben ac yn datblygu dealltwriaeth o sut mae popeth rydym yn eu wneud yn yr ysgol yn cyfrannu tuag atynt.

Yn ogystal â dysgu sgiliau Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol, mae dysgwyr yn datblygu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad mewn chwech maes dysgu a phrofiad. Rydym yn tynnu sylw i'r cysylltiadau rhyngddynt a bydd llawer o themâu a astudir yn canolbwyntio ar bob un o'r rhain gyda phwyslais gwahanol.

Cwricwlwm

Mae ein Cwricwlwm hefyd yn cwmpasu'r canlynol:

- Hawliau dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau plentyn
- Amrywiaeth a pharchu gwahaniaethau
- Profiadau a sgiliau ar gyfer gyrfaoedd ar gweithle
- Agweddau lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol ar ddysgu

Rydym yn cynnwys cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu ystod o sgiliau gan gynnwys:

- Sgiliau creadigrwydd ac arloesi sy'n rhoi cyfleoedd i archwilio, cyfathrebu, creu cynlluniau a darganfod atebion.
- Sgiliau meddwl beirniadol a datrys problemau sy'n rhoi cyfleoedd i ofyn cwestiynau, edrych ar y tystiolaeth, gwneud penderfyniadau a datrys problemau.
- Effeithiolrwydd personol sy'n galluogi dysgwyr i wneud y mwyaf o'i sgiliau a'i talentau. Byddwn yn derbyn cymorth i dyfu mewn hyder, dod yn ymwybodol o wahanol safbwyntiau cymdeithasol, moesol a diwylliannol a dysgu o'i chamgymeriadau.
- Sgiliau cynllunio a threfnu ble bydd disgyblion yn dysgu rheoli amser, gosod nodau, gwneud penderfyniadau a gwirio ei gwaith.

Cwricwlwm

Rydym yn credu'n gryf y dyled gwneud y mwyaf o'r ardal leol ble lleolir yr ysgol wrth gynllunio cyfleodd dysgu. Mae bod yn ysgol arfordirol yn darparu cyfoeth o gyfleoedd dysgu ar ein stepen drws i ddatblygu sgiliau Daearyddol a Gwyddonol y disgyblion. Yn hanesyddol, rydym wedi'i lleoli yng nghysgod bryngaer drawiadol o'r Oes Haearn, ac mae castell y dre ond pellter byr i ffwrdd.

Wrth i ni ddatblygu disgyblion yn artistig rydym yn ymdrechu i adeiladu cysylltiadau cryf efo Canolfan y Celfyddydau, lle rydym yn defnyddio yn flynyddol ar gyfer ein Sioe Nadolig yn ogystal â rhoi cyfleoedd i'r disgyblion gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd.

Rydym hefyd yn gwerthfawrogi'r cysylltiadau sydd gennym efo'r Brifysgol leol ac mae'r disgyblion yn elwa o hyd o gael profiadau o gyd-weithio efo amryw arbenigwyr o fewn ei meysydd penodol.

Yn gynyddol rydym wedi gweld yr ardal leol fel estyniad i'n hysgol sy'n helpu i ddod â dysgu yn fyw. O gael dealltwriaeth gadarn o'r ardal leol yn cynnwys ei diwylliant a'i thraddodiadau, mae disgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu ei gwybodaeth o'r byd ehangach. Trwy roi cyfleoedd i'r disgyblion arwain ei dysgu mae wedi bod yn llwyddiannus wrth iddynt adeiladu cymhelliant a'r awydd i ddysgu mwy.

Rydym yn credu fod pob plentyn yn gallu gwneud cynnydd ardderchog yn ystod ei amser yn yr ysgol ac rydym yn gosod disgwyliadau uchel o'r hyn y gallwn gyflawni. Ar sail hyn, rydym yn anelu i :

'cyflwyno Cwricwlwm eang, cyffrous a deniadol, gan wneud defnydd llawn o'r awyr agored, sydd yn bwrpasol, pwerus ac yn gadarnhaol, wrth alluogi'r plant i wneud cynnydd ardderchog gyda gwên ar eu hwynebau.'

Cwricwlwm

ADY

Mae gan ddysgwr ADY os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Mae gan blentyn o oedran ysgol orfodol neu berson dros yr oedran hwnnw anhawster dysgu neu anabledd os yw ef neu hi:

1. yn cael anhawster sylweddol fwy wrth ddysgu na'r mwyafrif o'r disgyblion yr un oedran, neu

2. ag anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ei atal neu ei rwystro rhag defnyddio cyfleusterau ar gyfer addysg neu hyfforddiant math a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.

Bydd athro/athrawes dosbarth eich plentyn, y CADY neu'r Brifathrawes ar gael i drafod unrhyw faterion sydd gennych ynglŷn a chynnydd eich plentyn.

Gellir cysylltu â'r CADY (Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol) ar - rhysc4@hwbcymru.net <mailto:rhysc4@hwbcymru.net>

Maethu

Rydym yn sylwi am ystod o resymau mae angen cefnogaeth ar blant i symud y rhwystrau i ddysgu. Mae disgyblion sydd yn mynychu grwpiau maethu yn cael ei asesu yn ei dysgu a'i anghenion cymdeithasol ac emosiynol. Gall y rhain fod yn rhan o grŵp maethu, neu dderbyn sesiynau unigol gan staff priodol.

Rydym yn ffodus iawn i gael adeilad pwrpasol 'Y Plas', a redwyd gan Mrs Hopson. Defnyddir hyn i alluogi'r grwpiau maethu i gynnal sesiynau o dan yr amgylchiadau tawel priodol. Gobeithiwn hefyd y gall hwn gael ei ddefnyddio i gwrdd â grwpiau bach o rieni i'w cefnogi mewn amryw o ffyrdd.

Cwricwlwm

Ymyrraeth

Ym Mhlascrug, rydym yn cynnig amryw o raglenni ymyrraeth o ddarllen, sillafu a rhifedd i grwpiau sgiliau synhwyraidd a chymdeithasol. Mae'r grwpiau hyn yn galluogi'r plant i brofi llwyddiant a datblygu sgiliau fydd yn ei alluogi i gyflawni ei llawn botensial. Pwrpas ein rhaglenni ymyrraeth yw i'r plentyn i ddatblygu hyder yn ei allu, ac i gael mynediad i'r byd gydag ymdeimlad o gyflawniad a mwynhad. Os fydd eich plentyn angen derbyn unrhyw un o'n rhaglenni ymyrraeth, mi fydd yn cael ei drafod efo chi yn gyntaf.

"nid y grefft o alluogi plant ag anawsterau dysgu i lwyddo yw cael cant o wahanol strategaethau, ond cyflwyno un strategaeth mewn cant o ffyrdd gwahanol ac ystyrlon"

TGCH

Mae disgyblion yn cael amryw gyfleoedd yma yn Ysgol Plascrug i ddatblygu ac ymarfer eu sgiliau TGCH drwy amryw o weithgareddau trawsgwricwlaidd. Anfonir cytundeb diogelwch rhyngrwyd yn flynyddol ar ddechrau bob blwyddyn rhwng disgyblion a rhieni/gofalwyr. Mae porwr gwe'r ysgol hefyd wedi'i hidlo gan Gyngor Sir Ceredigion wrth sicrhau diogelwch pob plentyn wrth weithio ar lein.

Cynnydd Disgyblion

Yn ystod y flwyddyn mae sawl cyfle i rieni/gofalwyr fonitro cynnydd ei phlentyn yn yr ysgol. Yn ystod y mis cyntaf, cynhelir sesiwn cwrdd â'r athro/athrawes sy'n gyfle i'r rhiant/gofalwr gwrdd ag athro dosbarth ei phlentyn ac ymgyfarwyddo efo'r ystafell ddosbarth.

Mae yna gyfarfod cynnydd yn ystod tymor yr Hydref/Gwanwyn i drafod cynnydd eich plentyn efo'i athro/athrawes. Yna, yn olaf, caiff adroddiad blynyddol ei gynhyrchu yn ystod tymor yr Haf gyda chrynodeb o gynnydd eich plentyn.

Yn ogystal â hyn, mae pob disgybl ym mlwyddyn 2-6 yn eistedd profion cenedlaethol yn ystod tymor y Gwanwyn a'r Haf. Mae disgyblion o flynyddoedd 1-6 hefyd yn cwblhau holiadur PASS sy'n ein galluogi i adnabod unrhyw anghenion maethu gall unigolion gael.